**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Nusrat Ghani AS
Gweinidog Gwladol dros Fusnes a Masnach
Yr Adran dros Fusnes a Masnach

21 Mawrth 2024

Tata Steel – ystyried polisïau i sicrhau cyflenwad dur sgrap

Annwyl Weinidog,

Yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David TC Davies AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ar ddyfodol dur Cymru. Yn ystod y sesiwn, mewn perthynas â chynlluniau at y dyfodol ar gyfer ffwrnais arc trydan ym Mhort Talbot, fe'i holwyd ynghylch y defnydd posibl o ddur sgrap dros ben o'r DU yn ffwrnais arc trydan arfaethedig Tata.

Bu galwadau ar i Lywodraeth y DU ddatblygu polisïau i sicrhau cyflenwad digonol o ddur sgrap domestig i'w ddefnyddio gan wneuthurwyr dur y DU yng nghyd-destun galw cynyddol posibl yn y dyfodol. Pan ofynnwyd iddo pa drafodaethau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cael ar y mater hwn, awgrymodd yr Ysgrifennydd Gwladol ein bod yn ysgrifennu at yr Adran dros Fusnes a Masnach i ofyn am ragor o fanylion.

Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech ddweud mwy wrthym am y trafodaethau sydd wedi'u cynnal, a pha ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu polisïau i sicrhau dur sgrap domestig digonol i'w ddefnyddio gan wneuthurwyr dur yn y DU.

Mae'r Pwyllgor wedi bod yn blaenoriaethu gwaith craffu ar ddatblygiadau sy'n mynd rhagddynt yn Tata Steel oherwydd y goblygiadau enbyd i'r gweithwyr, y gymuned ac economi ehangach Cymru. Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg